

Numbers Count
Rhifau'n Cyfri



Authors: Hilary Koll and Steve Mills

©The Basic Skills Agency, Commonwealth House,
1-19 New Oxford Street, London WC1A 1NU


Published January 2006

Awduron: Hilary Koll a Steve Mills

©Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, Commonwealth House,
1-19 New Oxford Street, London WC1A 1NU

Cyhoeddwyd Ionawr 2006

Ydych chi'n casáu mathemateg?



Gawsoch chi brofiadau gwael o fathemateg pan oeddech yn yr ysgol?

Deimloch ei bod fel iaith ddïrgel doeddech chi ddim yn ei deall?

DYDYCH CHI DDIM AR EICH PEN EICH HUN!

Mae mathemateg yn bwnc y mae llawer o bobl yn ei gael e'n anodd. Mae hynny oherwydd, mewn mathemateg, mae'n rhaid i chi ddeall un peth cyn symud ymlaen i'r peth nesaf.

Os ydych chi'n colli rhywbeth, fydd y darn nesaf ddim yn gwneud synnwyr!

Mae fel ceisio codi tŵr o friciau heb sefydlogi'r briciau ar y gwaelod. Mae bron yn sicr o gwmpo! Dydy pynciau eraill ddim fel hyn. Mewn daearyddiaeth, er enghraifft, gallwch chi ddysgu am rewlifoedd. Os dydych chi ddim yn deall rhewlifoedd gallwch chi dal ddysgu am ffermio yn Awstralia!

›

Y Pecyn Helpu Eich Hunain

Mae'r cardiau yn y pecyn hwn wedi'u cynllunio i'ch helpu chi i deimlo ychydig yn fwy hyderus gyda mathemateg.

- Mae gan bob cerdyn adran o'r enw 'Y ffeithiau' a fydd yn helpu i ddangos y prif syniadau i chi.

Numbers Count

123

Rhifau'n Cyfri

- Mae rhai cwestiynau i chi, gydag enghreifftiau.
- Rhowch gynnig ar yr enghreifftiau ar y cardiau. Yna gwiriwch eich atebion chi gyda'r cerdyn atebion yng nghefn y pecyn.
- Os gwelwch chi derm dydych chi ddim yn ei deall, mae yna gerdyn o eiriau mathemategol a allai fod o ddefnydd i chi.

Camau nesaf

Pan fyddwch chi wedi gweithio drwy'r pecyn efallai y bydd diddordeb gennych chi mewn gwneud rhagor o fathemateg. Efallai yr hoffech chi gael peth cymorth yn lleol gyda mathemateg. Os felly, y ffordd hawsaf o ddod o hyd i'r hyn sydd ar gael yw ffonio llinell gyngor **learndirect** ar **0800 100 900**, neu ewch i'r wefan yn www.learndirect-advice.co.uk.

Geiriau mathemateg

Numbers Count

123

Rhifau'n Cyfri

Adio/adiad

Adiad ydy pan fyddwch chi'n adio rhywbeth at rywbeth arall. Mae hyn yn gwneud y rhif terfynol yn fwy, e.e. mae 2 wedi'i adio at 3 yn gwneud 5, neu $2 + 3 = 5$.

Degolyn/pwynt degol

Mae degolyn yn ffordd o fesur llai nag 1. Ffracsiwn ydy mewn gwirionedd lle y mae dot (a gaiff ei alw'n bwynt degol) yn cael ei ddilyn gan rifau sy'n cynrychioli'r degfedau, y canfedau, a'r milfedau e.e.

$$0.5 = \frac{5}{10} \quad 0.05 = \frac{5}{100} \quad 0.005 = \frac{5}{1000}$$

Enwadur

Y rhif gwaelod mewn ffracsiwn, e.e. 5 yw'r enwadur yn $\frac{4}{5}$.

Digid

Mae symbol unigol sy'n cynrychioli unrhyw rif o 0 i 9 weithiau'n cael ei alw'n ddigid, e.e. mae'r rhif 385 yn cynnwys y digidau 3, 8 a 5.

Rhannu/rhaniad

Rhaniad ydy pan fyddwch chi'n rhannu rhywbeth yn rhannau. Felly 6 wedi'i rannu gyda dau yw 3, neu $6 \div 2 = 3$.

Ffracsiwn

Mae ffracsiwn yn ffordd o ddangos rhifau sydd rhwng rhifau cyfan. Os bydd rhif cyfan yn cael ei rannu'n rhannau cyfartal, caiff pob rhan ei galw'n

ffracsiwn. Mae rhif gwaelod ffracsiwn yn dweud wrthyhych chi sawl rhan gyfartal y mae'r cyfan wedi'i rannu iddi hi, e.e.

Os bydd cacen yn cael ei thorri'n 6 rhan gyfartal, caiff pob rhan ei galw'n chweched neu $\frac{1}{6}$.

Mae rhif top ffracsiwn yn dweud wrthym am faint o'r rhannau hynny rydym ni'n sôn.

Lluosi/lluosiad

Lluosiad ydy pan fyddwch chi'n adio rhif i'w hun dro ar ôl tro. Felly gyda $2 + 2 + 2 + 2$ rydym wedi adio 4 dau at ei gilydd. Gallwch ddangos hyn mewn ffordd arall: $2 \times 4 = 8$.

Rhifiadur

Rhif top mewn ffracsiwn, e.e. 4 ydy'r rhifiadur yn $\frac{4}{5}$.

Canran

Mae canrannau'n ganfedau, ond yn lle ysgrifennu'r 100 ar waelod ffracsiwn gallwn ni ddweud 'y cant' sy'n golygu 'fesul cant'.

Felly $\frac{1}{100}$ ydy 1%, $\frac{50}{100}$ ydy 50%.

Plws

Mae plws yn golygu adio. Mae 12 plws 6 yn golygu $12 + 6 = 18$.

Tynnu/tyniad

Tyniad ydy pan fyddwch chi'n tynnu rhywbeth i ffordd o rywbeth arall. Mae hyn yn gwneud y rhif terfynol yn llai, e.e. mae 4 tynnu 3 yn 1, neu $4 - 3 = 1$.


Materion ariannol

Dysgwch am arian a degolion



Numbers Count

Rhifau'n Cyfri **123**



Mae gan symiau o arian, fel £3.27, ddot o'r enw pwynt degol.

Mae'r pwynt degol yn gwahanu'r punnoedd llawn o 'rannau punnoedd' (y ceiniogau).

- Mae'r digid cyntaf i'r dde o'r dot yn dangos sawl **degfed o bunt (neu 10c)** sydd.
- Mae'r ail ddigid i'r dde o'r dot yn dangos sawl **canfed o bunt (neu 1c)** sydd.

£3.27 £2.05 £1.30

Y ffeithiau

Pan fyddwn ni'n ysgrifennu swm o arian gyda phwynt degol rydyn ni bob amser yn ysgrifennu dau ddigid ar ôl y dot, fel £1.30 yn lle £1.3.

Dydy cyfrifianellau ddim yn gwneud hyn! Edrychwch ar y papur cyflog hwn.

Enw: Iwan Tlawd	
Cyfanswm yr oriau	16
Cyfradd fesul awr	£6.05
Cyflog am yr wythnos	?

Er mwyn cyfrifo'r cyflog am yr wythnos, pwyswch:

16 x 6.05

ar gyfrifiannell

Gawsoch chi 96.8?

Mae hyn yn golygu £96.80.

Ceisiwch chi...

Gwiriwch y papurau cyflog hyn gan ddefnyddio cyfrifiannell i weld pa rai sy'n gywir.

Ysgrifennwch yr ateb cywir i'r rheini sy'n anghywir.

Enw: Owen Moore	
Cyfanswm yr oriau	35
Cyfradd fesul awr	£4.70
Cyflog am yr wythnos	£164.05

~~X~~ £164.50

Enw: Phil Mipockets	
Cyfanswm yr oriau	20
Cyfradd fesul awr	£6.50
Cyflog am yr wythnos	£130.00

✓

Enw: Seymour Cash	
Cyfanswm yr oriau	29
Cyfradd fesul awr	£5.08
Cyflog am yr wythnos	£132.47

Enw: Deepa Pockets	
Cyfanswm yr oriau	34
Cyfradd fesul awr	£4.95
Cyflog am yr wythnos	£168.03

Enw: Justin Silver	
Cyfanswm yr oriau	42
Cyfradd fesul awr	£4.90
Cyflog am yr wythnos	£205.80

Enw: Rob Banks	
Cyfanswm yr oriau	24
Cyfradd fesul awr	£9.25
yn ogystal â bonws o 56c	
Cyflog am yr wythnos	£222.56

Enw: Robin Mee	
Cyfanswm yr oriau	41
Cyfradd fesul awr	£6.12
yn ogystal â bonws o 77c	
Cyflog am yr wythnos	£164.05

Cymerwch ofal eich bod chi'n adio £0.89 ddim £89!

Enw: Penny Coyne	
Cyfanswm yr oriau	33
Cyfradd fesul awr	£5.18
yn ogystal â bonws o 89c	
Cyflog am yr wythnos	£171.83

Siec os gwelwch yn dda!

Dysgwch am ysgrifennu rhifau



Numbers Count

Rhifau'n Cyfri

123



Wrth ysgrifennu rhifau ar sieciau mae angen i ni wybod beth y mae pob digid mewn rhif yn ei olygu.

325

Cannoedd	Degau	Unedau
3	2	5

$$300 + 20 + 5$$

Tri chant a dau ddeg pump

908

Cannoedd	Degau	Unedau
9	0	8

$$900 + 8$$

Naw cant ac wyth

Y ffeithiau

Dyma rai rhifau mewn digidau a geiriau:

1 un	2 dau	3 tri	4 pedwar	5 pump	6 chwech	7 saith	8 wyth	9 naw	10 deg
11 un deg un	12 un deg dau	13 un deg tri	14 un deg pedwar	15 un deg pump	16 un deg chwech	17 un deg saith	18 un deg wyth	19 un deg naw	20 dau ddeg
21 dau ddeg un	22 dau ddeg dau	23 dau ddeg tri	24 dau ddeg pedwar	25 dau ddeg pump	26 dau ddeg chwech	27 dau ddeg saith	28 dau ddeg wyth	29 dau ddeg naw	30 tri deg
40 pedwar deg	50 pum deg	60 chwe deg	70 saith deg	80 wyth deg	90 naw deg	100 cant	200 dau gant	1000 mil	

Wrth ysgrifennu symiau o arian, yn gyntaf ysgrifennwch faint o bunnoedd sydd, wedyn faint o geiniogau sydd.

£145.09 cant a phedwar deg pump o bunnoedd a naw ceiniog

Ceisiwch chi...

Ysgrifennwch y rhifau hyn mewn geiriau.

164	cant chwe deg a phedwar
859	
240	
707	

Ysgrifennwch bunnoedd a cheiniogau ar gyfer y symiau hyn.

£385.26	
£203.81	
£814.10	
£796.05	

Cyfri stoc

Dysgwch am adio ysgrifenedig



Numbers Count

Rhifau'n Cyfri **123**



Mae cyflenwyr adeiladwyr yn cynnal ymarfer cyfri stoc i wirio'r nifer o fagiau o sment sydd wedi'u gwerthu bob mis rhwng Ionawr a Mehefin.

Mae'r cyfanswm wedi'i gael drwy adio'r holl rifau.

BAGIAU SMENT	
Ion	26
Chwe	55
Maw	125
Ebr	106
Mai	158
Meh	204
Cyfanswm	674

Y ffeithiau

Wrth adio, sicrhewch fod y rhifau wedi'u halinio yn dechrau o'r dde, fel bod yr unedau (U) mewn llinell â'r unedau eraill, y degau (D) gyda'r degau, a'r cannoedd (C) gyda'r cannoedd.

$$\begin{array}{r}
 \text{C} \quad \text{D} \quad \text{U} \\
 2 \quad 3 \quad 7 \\
 + \quad 5 \quad 6 \\
 \hline
 \end{array} \longrightarrow 200 + 30 + 7 + 50 + 6$$

$$\begin{array}{r}
 \text{C} \quad \text{D} \quad \text{U} \\
 2 \quad 9 \quad 2 \\
 + \quad 8 \quad 9 \\
 + \quad 3 \quad 5 \quad 6 \\
 \hline
 \end{array} \longrightarrow 200 + 90 + 2 + 80 + 9 + 300 + 50 + 6$$

Mae gwahanol ddulliau o adio ar bapur. Dyma ddull cyffredin.

$$\begin{array}{r}
 \text{C} \quad \text{D} \quad \text{U} \\
 2 \quad 3 \quad 7 \\
 + \quad 5 \quad 6 \\
 \hline
 2 \quad 9 \quad 3 \\
 \quad 1
 \end{array}$$

Dechreuwch gyda'r unedau

$$7 + 6 = 13$$

Cariwch 1 a rhowch 3 dan yr unedau.

Nawr y degau

$$3 + 5 + \text{yr } 1 \text{ a garioch} = 9$$

Nawr y cannoedd

$$2 + 0 = 2$$

$$\begin{array}{r}
 \text{C} \quad \text{D} \quad \text{U} \\
 2 \quad 9 \quad 2 \\
 + \quad 8 \quad 9 \\
 + \quad 3 \quad 5 \quad 6 \\
 \hline
 7 \quad 3 \quad 7 \\
 2 \quad 1
 \end{array}$$

Dechreuwch gyda'r unedau

$$2 + 9 + 6 = 17$$

Cariwch 1 a rhowch 7 dan yr unedau.

Nawr y degau

$$9 + 8 + 5 + \text{yr } 1 \text{ a garioch} = 23$$

Cariwch 2 a rhowch 3 dan yr unedau.

Nawr y cannoedd

$$2 + 3 + \text{y } 2 \text{ a garioch} = 7$$

Ceisiwch chi...

Dewch o hyd i'r cyfansymiau ar gyfer yr ymarferion cyfri stoc hyn.

TYWOD
126
31
24
110
+ 25
316

GRO
38
374
106
322
+ 151

SMENT
355
264
164
87
+ 33

CALCH
236
85
163
252
+ 134

GRAEAN
157
289
325
127
+ 79

Cymerwch rywbeth i ffwrdd!

Dysgwch am dynnu ysgrifenedig



Numbers Count

Rhifau'n Cyfri **123**



Mae biliau sy'n cynnwys eitem am ddim ran amlaf yn dangos pris llawn yr eitem.

Yn gyntaf mae'r cyfanswm yn cael ei gyfrifo, ac yna mae pris yr eitem am ddim yn cael ei dynnu i ffwrdd.

PALAS PEKING	
Porc sur a melys	3.74
Peli corgimychiaid	4.27
Chow Mein	2.95
Chop Suey	2.95
Reis wedi'i ffrio	1.78
Cyfanswm	15.69
Reis am ddim!	- 1.78
	13.91

Y ffeithiau

Wrth dynnu i ffwrdd, sicrhewch fod y rhifau wedi'u halinio yn dechrau o'r dde, fel bod yr unedau (U) mewn llinell â'r unedau eraill, y degau (D) gyda'r degau, a'r cannoedd (C) gyda'r cannoedd.

Os ydy'r rhifau yn brisiau, unwaith eto aliniwch nhw o'r dde, yn dechrau gyda'r ceiniogau.

C	D	U	D	U	. 10c	1c	D	U	. 10c	1c			
2	3	7	3	1	. 4	8	3	6	. 5	3			
-		5	6	-		7	3	9	-		0	8	5

Mae gwahanol ddulliau o dynnu i ffwrdd ar bapur. Dyma ddull cyffredinol.

C	D	U	Dechreuwch gyda'r unedau	C	D	U	Dechreuwch gyda'r unedau
4	5	9	9 - 1 = 8	7	3	18	8 - 9 . . . mae 9 yn fwy nac 8 felly rydyn ni'n tynnu un deg o'r 4 deg.
-	3	1	Nawr y degau	-	5	3	9
4	2	8	5 - 3 = 2	2	0	9	Un deg ac 8 yw 18. 18 - 9 = 9
			Nawr y cannoedd				Nawr y degau
			4 - 0 = 4				3 - 3 = 0
							Nawr y cannoedd
							7 - 5 = 2

Ceisiwch chi... Atebwch y rhain gan ddefnyddio eich dull chi eich hun neu'r dull uchod.

8 5 9	3 5 1	8 6 2	2 3 7	7 5 8	8 7 1	6 1 9	8 3 0
- 4 3	- 2 9	- 5 6	- 4 6	- 3 5 7	- 5 4 6	- 1 5 5	- 4 2 7
8 1 6							

Ffracsiynau

Dysgwch am ffracsiynau



Numbers Count

Rhifau'n Cyfri **123**



Mae'r penawdau papur newydd hyn yn dangos ffracsiynau.

Mae $\frac{2}{3}$ o nyrsys yn gweithio mwy na 40 awr yr wythnos

CWYMPODD PRESENOLDEB YN OLD TRAFFORD $\frac{1}{4}$

Mae gan $\frac{4}{5}$ o bobl yn eu harddegau ffôn symudol

Mae ffracsiynau yn dangos rhannau o gyfan.

- Mae'r rhif gwaelod, yr enwadur, yn dangos i mewn i sawl rhan gyfartal y mae'r cyfan wedi'i rhannu.
- Mae'r rhif top, y rhifiadur, yn dangos am faint o'r rhannau cyfartal hyn rydyn ni'n sôn.




$\frac{4}{5}$ o bobl ifanc

Y ffeithiau

Wrth ysgrifennu ffracsiwn:

- dewch o hyd i nifer y **rhannau cyfartal** y mae'r cyfan wedi'i rannu iddyn nhw ac ysgrifennwch hwn ar waelod y ffracsiwn
- ysgrifennwch y nifer o'r rhannau hyn rydych chi'n sôn amdany'n nhw ar dop y ffracsiwn.



Ceisiwch chi...

Ysgrifennwch pa ffracsiwn o bob siâp sy'n goch.



Mynd am wibdaith

Dysgwch am dalgrynnu i fyny



Numbers Count

123

Rhifau'n Cyfri



Wrth rannu ar gyfrifiannell, dydy'r ateb ddim yn gwneud synnwyr bob tro!

Mae 154 o bobl yn mynd am wibdaith am ddiwrnod. Mae coets yn dal 56 o bobl.

Sawl coets sydd ei hangen?

• Pwyswch i gyfrifiannell
 $154 \div 56 =$

• Gawsoch chi'r ateb 2.75?

Mae hyn yn golygu 2 $\frac{3}{4}$ coets – ond mae hynny'n wirion. Yn lle dywedwn fod angen 3 choets arnon ni! Rydyn ni'n talgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf.

Y ffeithiau

Talgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf

Mae **6.1**

yn golygu 'chwech ac ychydig'.
Mae rhwng 6 a 7.

Rydyn ni'n talgrynnu i fyny i 7.

Mae **4.33333**

yn golygu 'pedwar ac ychydig'.
Mae rhwng 4 a 5.

Rydyn ni'n talgrynnu i fyny i 5.

Mae **2.95**

yn golygu 'dau a llawer'.
Mae rhwng 2 a 3.

Rydyn ni'n talgrynnu i fyny i 3.

Ceisiwch chi...

Defnyddiwch gyfrifiannell. Cyfrifwch sawl coets y bydd ei hangen ar gyfer pob gwibdaith. Cofiwch dalgrynnu'r ateb i fyny.

Mae ein coetsis ni yn cario 40 o bobl.
Rydych chi'n dweud bod 220 o bobl?
Bydd angen **6** coets

Mae ein coetsis ni yn cario 48 o bobl.
Rydych chi'n dweud bod 132 o bobl?
Bydd angen coets

Mae ein coetsis ni yn cario 60 o bobl.
Rydych chi'n dweud bod 216 o bobl?
Bydd angen coets

Mae ein coetsis ni yn cario 45 o bobl.
Rydych chi'n dweud bod 190 o bobl?
Bydd angen coets

Mae ein coetsis ni yn cario 63 o bobl.
Rydych chi'n dweud bod 256 o bobl?
Bydd angen coets

Mae ein coetsis ni yn cario 59 o bobl.
Rydych chi'n dweud bod 191 o bobl?
Bydd angen coets

Cymerwch y tabledi o hyd

Dysgwch am dalgrynnu i lawr



Numbers Count

Rhifau'n Cyfri

123



Wrth rannu ar gyfrifiannell, dydy'r ateb ddim yn gwneud synnwyr bob tro!

Mae 17,200 o dabledi yn cael eu rhoi i mewn pecynnau o 12. Sawl pecyn llawn a gaiff ei wneud?

- Pwyswch i gyfrifiannell
 $17200 \div 12 =$

Gawsoch chi'r ateb 1433.33333333?

Rhaid i ni **dalgrynnu i lawr** i'r rhif cyfan agosaf. Dim ond 1433 o becynnau llawn y gallwch eu gwneud.

Y ffeithiau

Talgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf:

Mae **8.2**

yn golygu 'wyth ac ychydig'.
Mae rhwng 8 a 9.
Rydyn ni'n **talgrynnu i lawr** i 8.

Mae **5.111111111**

yn golygu 'pump ac ychydig'.
Mae rhwng 5 a 6.
Rydyn ni'n **talgrynnu i lawr** i 5.

Mae **1.98**

yn golygu 'un a llawer'.
Mae rhwng 1 a 2.
Rydyn ni'n **talgrynnu i lawr** i 1.

Ceisiwch chi...

Defnyddiwch gyfrifiannell. Cyfrifwch sawl pecyn llawn y gallwch ei wneud.

650 o dabledi Pecynnau o 10	358 o dabledi Pecynnau o 8	1731 o dabledi Pecynnau o 12
<u>65</u> pecyn llawn	_____ pecyn llawn	_____ pecyn llawn

2480 o dabledi Pecynnau o 15	5749 o dabledi Pecynnau o 6	12500 o dabledi Pecynnau o 9
_____ pecyn llawn	_____ pecyn llawn	_____ pecyn llawn

5022 o dabledi Pecynnau o 8	15021 o dabledi Pecynnau o 10	848 o dabledi Pecynnau o 21
_____ pecyn llawn	_____ pecyn llawn	_____ pecyn llawn

Eich tro chi


Dysgwch fwy am dalgrynnu



Numbers Count

Rhifau'n Cyfrif

123



Ar y ddau gerdyn diwethaf rydyn ni wedi gweld sut, mewn bywyd go iawn, rydyn ni weithiau yn talgrynnu rhifau i fyny neu i lawr fel eu bod nhw'n gwneud synnwyr.

Rydyn ni hefyd yn talgrynnu rhifau i'w gwneud nhw'n symlach ac yn haws i'w trin.

Pan wnawn ni hyn rydyn ni'n talgrynnu i fyny neu i lawr yn dibynnu ar y rhif ei hun.

Y ffeithiau

Er mwyn talgrynnu rhifau rhaid i chi benderfynu beth rydych chi'n talgrynnu iddo fe.

Gallwch dalgrynnu'r rhif **261** i...
260 (y 10 agosaf)
neu i **300** (y 100 agosaf).

Wrth dalgrynnu **i'r 10 agosaf** yn gyntaf ysgrifennwch y ddau luosrif o **10** sydd bob ochr i'r rhif. Cofiwch fod lluosrifau o 10 yn gorffen â 0. Penderfynwch p'un o'r ddau hyn y mae'ch rhif chi yn agosach ato fe.

260 **261** **270**
Mae **261** yn **260** wrth ei dalgrynnu i'r 10 agosaf.

Wrth dalgrynnu **i'r 100 agosaf** ysgrifennwch y ddau luosrif o **100** sydd bob ochr i'r rhif. Cofiwch fod lluosrifau o 100 yn gorffen â 00. Penderfynwch p'un o'r ddau hyn y mae'ch rhif chi yn agosach ato fe.

200 **261** **300**
Mae **261** yn **300** wrth ei dalgrynnu fe i'r 100 agosaf.

Os ydy rhif yn union hanner ffordd rhwng dau rif, rydyn ni fel arfer yn talgrynnu i fyny.

Mae **265** yn **270** wrth ei dalgrynnu fe i'r 10 agosaf.

Ceisiwch chi...

Talgrynnwch y pelteroedd hyn i'r 10 milltir agosaf.

137 milltir 140 milltir
703 milltir _____
519 milltir _____
378 milltir _____
221 milltir _____
835 milltir _____

Talgrynnwch y pwysau hyn i'r 100g agosaf.

243g 200g
194g _____
739g _____
419g _____
351g _____
850g _____

Mesur hydoedd

Dysgu am fesur




Numbers Count

123

Rhifau'n Cyfri



Wrth fesur hydoedd rydyn ni'n gallu defnyddio milimetrau (mm), centimetrau (cm), neu fetrau (m).



Mae'r pren mesur hwn wedi'i farcio mewn centimetrau. Y pellter rhwng 0 ac 1 ydy un centimetr neu 1cm.

Mae milimetr ddeg gwaith yn llai na chentimetr. Mae'r pellter rhwng dwy linell fach ar y pren mesur hwn.

Y feithiau


Gallwn ysgrifennu hydoedd byr mewn ffyrdd gwahanol. Gall hyd y llinell goch gael ei ysgrifennu mewn milimetrau neu gentimetrau, fel hyn 24mm neu 2.4cm.

Mae hyn yn golygu 2 gentimetr llawn.

Mae hyn yn golygu 4 degfed o gentimetr, sef 4 milimetr.

Mae'r mesuriadau ym mhob pâr yn dangos yr un hyd:

$$35\text{mm} = 3.5\text{cm} \quad 49\text{mm} = 4.9\text{cm} \quad 125\text{mm} = 12.5\text{cm}$$




Mae metr yr un pellter â 100 centimetr. Mae tua'r pellter o waelod drws at ddolen y drws.

Gallwn ysgrifennu hydoedd hirach mewn gwahanol ffyrdd hefyd.

Gallai uchder y drws gael ei ysgrifennu mewn milimetrau, centimetrau neu fetrau, fel hyn:

$$2000\text{mm} \quad \text{neu} \quad 200\text{cm} \quad \text{neu} \quad 2\text{m}$$

Cofiwch: 10mm = 1cm a 100cm = 1m a 1000mm = 1m



Ceisiwch chi... Defnyddiwch bren mesur i fesur hydoedd y llinellau hyn.

Ysgrifennwch bob hyd mewn cm ac mewn mm.




Ar y trac

Dysgwch am ddegolion



Numbers Count

Rhifau'n Cyfri **123**



'27.38 eiliad oedd fy amser i.
27.4 eiliad oedd dy amser di.
Pwy enillodd?'

Er mwyn ateb hyn rhaid i ni wybod pa rif degol ydy'r lleiaf.

Sicrhewch eich bod yn gwybod beth mae pob digid mewn rhif degol yn ei olygu.

pwynt degol degau canfedau



'Felly pwy enillodd? Fi!'

Y ffeithiau

Mae **degau** yn fwy na chanfedau.

0.1 ydy **un degfed**



0.01 ydy **un canfed**



Gan fod **degau** yn fwy na **chanfedau** gallwn ni weld bod...

0.4



yn fwy na 0.04



Ond byddwch yn ofalus, gyda rhifau cyfan, po **fwyaf** o ddegidau sydd gan rif y **mwya**f ydy. Dydy hyn **DDIM** yn wir bob tro am ddegolion.

Mae 0.4



yn fwy na 0.38



Mae 0.8



yn fwy na 0.75



Cymharwch y **degau** yn gyntaf!

Ceisiwch chi...

Ticiwch y rhif degol mwyaf ym mhob pâr.

27.38	27.4 ✓
13.2	13.39
48.5	38.41
2.51	2.54
3.76	3.7
6.25	6.3
1.75	1.8
7.25	7.21
4.22	4.2

Llund potel

Dysgwch am ganrannau



Numbers Count

123

Rhifau'n Cyfri



Faint sy'n alcohol pur?

Mae'r canrannau'n dweud wrthon ni.

Dychmygwch y gallen ni wahanu'r alcohol.

Rhannwch y ddiod yn 100 rhan gyfartal.

I'r cwrw, byddai 5 allan o 100 rhan yn alcohol pur.

$$5 \text{ allan o } 100 = 5/100 = 5\%$$

5% alcohol



Y ffeithiau

Mae'r arwydd canran % yn golygu 'allan o 100'.

50%

Mae 50% yn golygu 50 rhan allan o 100. Mae hyn yr un peth â hanner. I gyfrifo **50%** o rif **hanerwch y rhif**.

25%

Mae 25% yn golygu 25 rhan allan o 100. Mae hyn yr un peth â chwarter. I gyfrifo **25%** o rif **hanerwch y rhif ac yna hanerwch eto**.

75%

Mae 75% yn golygu 75 rhan allan o 100. Mae hyn yr un peth â thri chwarter. I gyfrifo **75%** o rif **cyfrifwch 50% a 25% ac adiwch nhw gyda'i gilydd**.



Ceisiwch chi...

Cyfrifwch 50% o:

£100	<u> £50 </u>
£120	<u> </u>
48m	<u> </u>
72kg	<u> </u>
680ml	<u> </u>

Cyfrifwch 25% o:

£100	<u> £25 </u>
£120	<u> </u>
48m	<u> </u>
72kg	<u> </u>
680ml	<u> </u>

Cyfrifwch 75% o:

£100	<u> £75 </u>
£120	<u> </u>
48m	<u> </u>
72kg	<u> </u>
680ml	<u> </u>

Ffyrdd o wella eich gallu i adio a thynnu i ffwrdd

Numbers Count

123

Rhifau'n Cyfri

1. Dysgwch a defnyddiwch barau o rifau sy'n adio i wneud 10.

Mae'n helpu i wybod y parau sy'n adio i wneud 10 oherwydd gallwch chi eu defnyddio nhw i'ch helpu chi i ateb llawer o gwestiynau gwahanol.

0 a 10 1 a 9 2 ac 8 3 a 7 4 a 6 5 a 5

10 a 0 9 ac 1 8 a 2 7 a 3 6 a 4

Meddyliwch am $4 + 7$ fel un yn fwy na 3 a 7 $4 + 7 = 11$

Meddyliwch am $12 + 8$ fel deg yn fwy na 2 ac 8 $12 + 8 = 20$

Meddyliwch am $21 + 49$ fel chwe deg yn fwy nag 1 a 9 $21 + 49 = 70$

Meddyliwch am $60 + 40$ fel deg gwaith yn fwy na 6 a 4 $60 + 40 = 100$

2. Wrth adio, gallwch chi adio mewn unrhyw drefn.

Yn aml, mae'n helpu i aildrefnu neu grwpio'r rhifau i'w gwneud nhw'n haws i'w hadio.

Dywedwch eich bod am adio:

$$8 + 2 + 17 + 3$$

Adiwch: $8 + 2$

10

Adiwch: $17 + 3$

20

Adiwch: $10 + 20 = 30$

3. Wrth dynnu i ffwrdd, defnyddiwch barau o rifau sy'n gwneud 10.

Am mai'r gwrthwyneb i adio ydy tynnu i ffwrdd gallwch chi ddefnyddio parau o rifau sy'n gwneud 10.

Am $10 - 3$ cofiwch fod 3 a 7 yn gwneud 10 $10 - 3 = 7$

Am $11 - 6$ cofiwch fod 6 a 4 yn gwneud 10
felly mae 6 a 5 yn gwneud 11 $11 - 6 = 5$

Am $20 - 8$ cofiwch fod 8 a 2 yn gwneud 10
felly mae 8 a 12 yn gwneud 20 $20 - 8 = 12$

Am $1000 - 400$ cofiwch fod 4 a 6 yn gwneud 10
felly mae 400 a 600 yn gwneud 1000 $1000 - 400 = 600$

4. Wrth adio a thynnu i ffwrdd ar bapur, aliniwch y rhifau'n gywir.

Wrth ysgrifennu rhifau cyfan mewn colofnau cofiwch eu halinio nhw gan ddechrau o'r dde, fel bod yr unedau (U) mewn llinell â'r unedau, y degau (D) gyda'r degau, a'r cannoedd (C) gyda'r cannoedd.

C D U	C D U
353	459
+ 47	- 51

Darganfyddwch fwy am adio a thynnu i ffwrdd ar y cardiau Cyfri stoc a Cymerwch rywbeth i ffwrdd!

Ffyrdd o wella eich gallu i luosi a rhannu

Numbers Count

123

Rhifau'n Cyfri

1. Wrth luosi, sicrhewch y gallwch chi luosi lluosrifau o 10 a 100.

Mae'n ddefnyddiol iawn gwybod sut i luosi lluosrifau o 10 fel 20, 50, 80, a lluosrifau o 100 fel 400, 600, 900.

Maen nhw'n eithaf hawdd – gallwch chi wneud yr ateb 10 neu 100 gwaith yn fwy yn y diwedd.

Dywedwch eich bod am luosi 40×3 :

yn gyntaf: $4 \times 3 = 12$

yna: $12 \times 10 = 120$

Wrth luosi â 10 mae popeth yn symud un lle i'r chwith.

C	D	U	
	1	2	$\times 10 =$
	↙	↘	
	1	2	0

Os ydych am luosi 500×4 :

yn gyntaf: $5 \times 4 = 20$

yna: $20 \times 100 = 2000$

Wrth luosi â 100 mae popeth yn symud dau lle i'r chwith.

Mil	C	D	U	
		2	0	$\times 100 =$
		↙	↘	
	2	0	0	0

2. Wrth luosi, gallwch chi hollti'r rhif a luosi pob rhan.

Weithiau mae rhif yn rhy anodd ei luosi mewn un tro. Gallwch chi hollti'r rhif a luosi pob rhan ar ei phen ei hun.

$$45 \times 3$$

↓

$$40 \longrightarrow 40 \times 3 = 120$$

$$5 \longrightarrow 5 \times 3 = 15$$

$$\text{Felly } 45 \times 3 = 135$$

3. Wrth rannu â dau, hanerwch y rhif.

Gallwch chi hollti rhif a haneru pob rhan ar ei phen ei hun.

$$94 \div 2$$

↓

$$90 \longrightarrow \text{hanner } 90 = 45$$

$$4 \longrightarrow \text{hanner } 4 = 2 \quad \text{Felly } 94 \div 2 = 47$$

4. Wrth rannu â 4, hanerwch ac yna hanerwch eto.

$$68 \div 4 \quad \text{hanner } 68 = 34, \quad \text{hanner } 34 = 17$$

$$\text{Felly, } 68 \div 4 = 17$$

5. Wrth rannu â 8, hanerwch, hanerwch eto ac yna hanerwch eto.

$$128 \div 8 \quad \text{hanner } 128 = 64, \quad \text{hanner } 64 = 32, \quad \text{hanner } 32 = 16$$

$$\text{Felly, } 128 \div 8 = 16$$

Darganfyddwch fwy am rannu ar y cardiau Mynd am wibdaith a Cymwrch y tabledi o hyd.

Atebion

Numbers Count

123

Rhifau'n Cyfri

Materion ariannol

Enw: Owen Moore	
Cyfanswm yr oriau	35
Cyfradd fesul awr	£4.70
Cyflog am yr wythnos	£164.05

X £164.50

Enw: Phil Mipockets	
Cyfanswm yr oriau	20
Cyfradd fesul awr	£6.50
Cyflog am yr wythnos	£130.00

✓

Enw: Seymour Cash	
Cyfanswm yr oriau	29
Cyfradd fesul awr	£5.08
Cyflog am yr wythnos	£132.47

X £147.32

Enw: Deepa Pockets	
Cyfanswm yr oriau	34
Cyfradd fesul awr	£4.95
Cyflog am yr wythnos	£168.03

X £168.30

Enw: Justin Silver	
Cyfanswm yr oriau	42
Cyfradd fesul awr	£4.90
Cyflog am yr wythnos	£205.80

✓

Enw: Rob Banks	
Cyfanswm yr oriau	24
Cyfradd fesul awr	£9.25
Cyflog am yr wythnos	£222.00

✓

Enw: Robin Mee	
Cyfanswm yr oriau	41
Cyfradd fesul awr	£6.12
Cyflog am yr wythnos	£164.05

X £251.69

Enw: Penny Coyne	
Cyfanswm yr oriau	33
Cyfradd fesul awr	£5.18
Cyflog am yr wythnos	£171.83

✓

Siec os gwelwch yn dda!

- 164 cant chwe deg a phedwar _____
 859 wyth cant pum deg a naw _____
 240 dau gant pedwar deg _____
 707 saith cant a saith _____
- £385.26 tri chant ac wyth deg pump o bunnoedd a dau ddeg chwech ceiniog _____
 £203.81 dau gant a thri o bunnoedd ac wyth deg un ceiniog _____
 £814.10 wyth cant un deg a phedwar o bunnoedd a deg ceiniog _____
 £796.05 saith cant a naw deg chwech o bunnoedd a phum ceiniog _____

Cyfri stoc

TYWOD	
126	
31	
24	
110	
+ 25	
316	

GRO	
38	
374	
106	
322	
+ 151	
991	

SMENT	
355	
264	
164	
87	
+ 33	
903	

CALCH	
236	
85	
163	
252	
+ 134	
870	

GRAEAN	
157	
289	
325	
127	
+ 79	
977	

Cymerwch rywbeth i ffwrdd!

- | | | | |
|------|------|------|------|
| 859 | 351 | 862 | 237 |
| - 43 | - 29 | 2 56 | - 46 |
| 816 | 322 | 806 | 191 |
-
- | | | | |
|-------|-------|-------|-------|
| 758 | 871 | 619 | 830 |
| - 357 | - 546 | - 155 | - 427 |
| 401 | 325 | 464 | 403 |

Ffracsiynau



$\frac{1}{6}$



$\frac{1}{5}$



$\frac{4}{5}$



$\frac{3}{4}$



$\frac{3}{5}$



$\frac{1}{3}$



$\frac{2}{5}$



$\frac{7}{10}$



$\frac{3}{4}$



$\frac{3}{6}$ neu $\frac{1}{2}$



$\frac{5}{8}$



$\frac{3}{12}$ neu $\frac{1}{4}$

Atebion

Numbers Count

123

Rhifau'n Cyfri

Mynd am wibdaith

Mae ein coetsis ni yn cario 40 o bobl. Rydych chi'n dweud bod 220 o bobl? Bydd angen 6 coets

Mae ein coetsis ni yn cario 48 o bobl. Rydych chi'n dweud bod 132 o bobl? Bydd angen 3 coets

Mae ein coetsis ni yn cario 60 o bobl. Rydych chi'n dweud bod 216 o bobl? Bydd angen 4 coets

Mae ein coetsis ni yn cario 45 o bobl. Rydych chi'n dweud bod 180 o bobl? Bydd angen 5 coets

Mae ein coetsis ni yn cario 63 o bobl. Rydych chi'n dweud bod 256 o bobl? Bydd angen 5 coets

Mae ein coetsis ni yn cario 59 o bobl. Rydych chi'n dweud bod 191 o bobl? Bydd angen 4 coets

Cymerwch y tabledi o hyd

650 o dabledi Pecynnau o 10 <u>65</u> pecyn llawn	358 o dabledi Pecynnau o 8 <u>44</u> pecyn llawn	1731 o dabledi Pecynnau o 12 <u>144</u> pecyn llawn
2480 o dabledi Pecynnau o 15 <u>165</u> pecyn llawn	5749 o dabledi Pecynnau o 6 <u>958</u> pecyn llawn	12500 o dabledi Pecynnau o 9 <u>1388</u> pecyn llawn

5022 o dabledi Pecynnau o 8 <u>627</u> pecyn llawn	15021 o dabledi Pecynnau o 10 <u>1502</u> pecyn llawn	848 o dabledi Pecynnau o 21 <u>40</u> pecyn llawn
--	---	---

Eich tro chi

137 milltir	<u>140</u> milltir	243g	<u>200</u> g
703 milltir	<u>700</u> milltir	194g	<u>200</u> g
519 milltir	<u>520</u> milltir	739g	<u>700</u> g
378 milltir	<u>380</u> milltir	419g	<u>400</u> g
221 milltir	<u>220</u> milltir	351g	<u>400</u> g
835 milltir	<u>840</u> milltir	850g	<u>900</u> g

Mesur hydroedd

	2.5cm neu 25mm
	5.4cm neu 54mm
	1.4cm neu 14mm
	6.0cm neu 60mm
	3.3cm neu 33mm
	4.5cm neu 45mm

Ar y trac

27.38	27.4 ✓	6.25	6.3 ✓
13.2	13.39 ✓	1.75	1.8 ✓
48.5 ✓	38.41	7.25 ✓	7.21
2.51	2.54 ✓	4.22 ✓	4.2
3.76 ✓	3.7		

Llund potel

Cyfrifwch 50% o:	48m	<u>12</u> m
£100	<u>£50</u>	72kg
£120	<u>£60</u>	680ml
48m	<u>24</u> m	
72kg	<u>36</u> kg	
680ml	<u>340</u> ml	
Cyfrifwch 75% o:	£100	<u>£75</u>
£120	<u>£90</u>	
Cyfrifwch 25% o:	48m	<u>36</u> m
£100	<u>£25</u>	72kg
£120	<u>£30</u>	680ml
		<u>510</u> ml